Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Ymateb i Adroddiad Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Rhanbarth Cymru

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar: 17th Ebrill 2019

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar: 17th Ebrill 2019

## CYFLWYNIAD

Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yw'r arolygydd annibynnol ar gyfer gwasanaeth troseddwyr ifanc a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf a'r gwasanaethau troseddwyr ifanc gydag oedolion a phlant.

Mewn ymateb i'r adroddiad, mae'n ofynnol i HMPPS/MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau p'un a gytunir ar yr argymhellion, a gytunir yn rhannol arnynt neu os na chytunir o gwbl arnynt (gweler sut maent yn cael eu categoreiddio isod). Lle y cytunir neu y cytunir yn rhannol gydag argymhelliad, mae'r cynlluniau gweithredu yn darparu camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â nhw. Mae'r camau gweithredu yn glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol ac mae'r sawl sy'n gyfrifol ac amserlen bob cam wedi'u nodi'n glir. Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi. Bydd y cynnydd yn erbyn cyflawni'r camau gweithredu yn cael ei fonitro gan HMPPS/MoJ a'i adolygu gan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi mewn arolygiad blynyddol.

| **Canlyniad** | **Diffiniad** | **Sylw Pellach** |
|---|---|---|
| Cytuno | Cytunir ar yr holl argymhellion. Mae modd eu cyflawni ac maent yn fforddiadwy. | Dylai'r ymateb egluro'n glir sut y caiff yr argymhelliad ei gyflawni ynghyd ag amserlenni. Dylai'r camau gweithredu fod mor SMART (Specific, Measurable, Achievable, Realistic a Time-bound) â phosibl. Dylai'r camau fod yn ddigon penodol inni eu holrhain i weld y cynnydd. |
| Cytuno'n Rhannol | Dim ond rhan o'r argymhelliad y cytunir arno. Mae modd ei gyflawni a'i roi ar waith ac mae'n fforddiadwy.<br>Efallai mai'r rheswm am hyn yw oherwydd na allwn weithredu'r holl argymhelliad oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithdrefnol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad a gaiff ei weithredu ynghyd â chamau gweithredu SMART er mwyn inni eu holrhain i weld y cynnydd.<br>**Rhaid** egluro pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad - rhaid i hyn nodi'n glir a yw hyn o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithdrefnol neu fforddiadwyedd. |

| | | |
|---|---|---|
| Heb ei Gytuno | Ni chytunir ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithdrefnol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam rydym wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** egluro pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad - rhaid i hyn nodi'n glir a yw hyn o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithdrefnol neu fforddiadwyedd. |

| 1.<br>Rhif yr argymhelliad | 2.<br>Argymhelliad | 3.<br>Cytuno/Cytuno'n Rhannol/<br>Heb ei Gytuno | 4.<br>Ymateb<br>Camau a gymerwyd/bwriedir eu cymryd | 5.<br>Y Sawl sy'n Gyfrifol (gan gynnwys unigolion a enwir a'u rôl neu adran) | 6.<br>Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yng Nghymru** | | | | | |
| 1 | Adolygu a rheoli llwyth gwaith er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei ddosbarthu'n deg ac effeithlon | Cytuno | Caiff yr Adnodd Rheoli Llwyth Gwaith (WMT) ei adolygu'n fisol yng nghyfarfod Penaethiaid yr Uned Cefnogi Rhanbarthol (LDU)/ Penaethiaid Adrannau a Chyfarfod Rhanbarthol Cynllunio Gweithlu NPS Cymru; cadeirir y ddau gyfarfod gan Gyfarwyddwr NPS Cymru. Bydd y Rheolwr Perfformiad ac Ansawdd (P&Q) yn cynhyrchu adroddiadau LDU a bydd y Penaethiaid yn eu hadolygu ac yn eu defnyddio i sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddosbarthu'n deg ac effeithlon. Caiff yr adroddiadau hyn hefyd eu defnyddio i lywio penderfyniadau am adnoddau ar draws y Rhanbarth.<br><br>Bydd Uwch Swyddogion Prawf (SPOs) yn mynd ati i wirio'r WMT er mwyn i'w timau allu monitro faint o waith y mae swyddogion unigol yn ei gael, o'i gymharu â'u capasiti. Bydd y WMT hefyd yn cael ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio wrth ddyrannu achosion neu adroddiadau i swyddogion. | Cyfarwyddwr NPS Cymru<br><br>Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol | Ebrill 2019<br><br>Ebrill 2019 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd Pennaeth yr LDU yn dal yr SPO's i gyfrif am ddefnydd effeithiol o'r WMT trwy ei adolygu mewn cyfarfodydd rheolwyr misol lleol a thrafod defnydd o'r adnodd a'r gostyngiadau priodol mewn sesiynau goruchwylio un i un gyda'r SPOs. | | |
| 2 | Gwneud defnydd priodol ac effeithiol o'r gwasanaethau a ddarperir o dan gomisiwn gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) | Cytuno | Bydd y defnydd o'r Fframwaith Cynigion Effeithiol (EPF) gan staff y llys yn cynyddu i dros 70% ar gyfartaledd ledled Cymru. Ategir hyn drwy gynnwys canrannau cwblhau EPF cyn dedfrydu yn adroddiad perfformiad NPS Cymru.<br><br>Trafodir gweithgarwch argymhellion Llys yr NPS (fel y dangosir gan ddata EPF) fel rhan o eitem sefydlog ar yr agenda yn nhrefniadau rhyngwyneb Arweinwyr Llys ar gyfer CRC a NPS i nodi meysydd lle mae'r defnydd o wasanaethau CRC yn gyfyngedig, archwilio problemau a gwella arferion yn y ddau sefydliad.<br><br>Caiff y defnydd o'r cerdyn cyfradd ei hyrwyddo drwy rannu'r cerdyn gyda staff Rheoli Troseddwyr NPS, gan gynnwys manylion yr holl ymyriadau a gynigir gan y CRC.<br><br>Bydd data a welir ar y cerdyn cyfradd yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer holl gyfarfodydd rhyngwyneb CRC sy'n rhan o swyddogaeth yr LDU ac fe'u trafodir hefyd yng nghyfarfodydd Grŵp Integreiddio Gwasanaethau Cymru (SIG). Bydd hyn yn ein galluogi i ganfod ardaloedd lle mae'r defnydd o wasanaethau CRC yn gyfyngedig, gan ymchwilio i'r rhesymau dros y diffyg defnydd a chanfod datrysiadau i wella arferion y ddau sefydliad. | Arweinydd Strategol NPS Cymru/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol / Rheolwr Perfformiad ac Ansawdd<br><br>Arweinydd Strategol NPS Cymru<br><br>Arweinydd Strategol Cerdyn Cyfradd NPS Cymru/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol a'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol | Ebrill 2019<br><br>Ebrill 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Ebrill 2019 |
| 3 | Gwella'r broses ar gyfer cael gwybodaeth berthnasol gan wasanaethau plant ac unedau cam-drin domestig ym mhob achos perthnasol | Cytuno | Bydd y ddogfen *'HMIP Learning for Court Staff'* yn cael ei chynhyrchu a bydd yn canolbwyntio ar pa bryd y dylid cael gwybodaeth berthnasol gan y gwasanaethau plant ac unedau cam-drin domestig yr heddlu. Bydd y canllawiau hefyd yn egluro sut y dylid cofnodi hyn.<br><br>Bydd llawlyfr ar sut i gasglu gwybodaeth berthnasol ar draws yr holl unedau cam-drin domestig a gwasanaethau plant yng Nghymru yn cael ei lunio i'w ddefnyddio gan holl staff y llys.<br><br>Bydd dogfen a llawlyfr *'HMIP Learning for Court Staff'* sy'n sôn am y broses o ofyn am wybodaeth gan yr heddlu a'r gwasanaethau plant yn cael ei rhannu gyda staff drwy gyfuniad o sesiynau briffio a drwy fideo. | Arweinydd Strategol NPS Cymru<br><br>Arweinydd Strategol NPS Cymru<br><br>Arweinydd Strategol NPS Cymru<br><br>Arweinydd Strategol NPS Cymru a | Ebrill 2019<br><br>Ebrill 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Mehefin 2019 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd NPS Cymru yn cynnal archwiliad wythnosol o bymtheg achos yr un ar gyfer pob Tîm dros gyfnod o ddeufis, gan roi adborth wythnosol i'r staff hynny y bu iddynt ddadansoddi eu gwaith. Bydd yr archwiliad wythnosol yn canolbwyntio ar ofyn am wybodaeth gan unedau cam-drin domestig a gwasanaethau plant.<br><br>Bydd map sy'n dangos llwyddiant trwy rannu gwybodaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2019. Bydd hyn yn amlygu lle mae rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid (yn canolbwyntio'n benodol ar gaffael gwybodaeth am ddiogelu a cham-drin domestig) yn gweithio a lle mae'n anodd. Defnyddir hwn fel sail ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid allweddol o fis Mai i fis Medi 2019, gan fynd i'r afael â meysydd sy'n peri anhawster fel rhan o ymarferion ymgysylltu â phartneriaethau lleol. | Phenaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Arweinydd Strategol NPS Cymru a Phenaethiaid Unedau Cyflawni Lleol | Medi 2019 |
| 4 | Cynnal asesiadau risg o niwed ym mhob achos perthnasol | Cytuno | Bydd dogfen *'HMIP Learning for Court Staff"* yn cael ei chynhyrchu a bydd yn canolbwyntio ar pa bryd y dylid cwblhau asesiadau risg o niwed. Bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda'r staff drwy gyfuniad o friffiau a drwy fideo er mwyn sicrhau bod y staff yn cwblhau asesiadau risg o niwed ym mhob achos perthnasol.<br><br>Bydd NPS Cymru yn cynnal archwiliad wythnosol o bymtheg achos yr un ar gyfer pob Tîm dros gyfnod o ddeufis, gan roi adborth wythnosol i'r staff hynny y bu iddynt ddadansoddi eu gwaith. Bydd yr archwiliad wythnosol yn canolbwyntio ar ba un a gynhaliwyd asesiadau risg o niwed ym mhob achos perthnasol. | Arweinydd Strategol NPS Cymru<br><br>Arweinydd Strategol NPS Cymru a Phenaethiaid Unedau Cyflawni Lleol | Ebrill 2019<br><br>Mehefin 2019 |
| 5 | Gwella'r defnydd o gronfa ddata ViSOR i rannu gwybodaeth â'r heddlu a charchardai | Cytuno | Bydd Staff Rheoli Troseddwyr, Staff Rhanbarthol Ymyriadau Troseddau Rhyw, Rheolwr Adeiladau Cymeradwy a Rheolwyr Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ledled Cymru yn cyflwyno ffurflenni fetio i'r heddlu perthnasol.<br><br>Bydd yr holl staff hyn wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r system rhannu Gwybodaeth am Droseddwyr Treisgar a Rhywiol (ViSOR). Bydd hwn yn canolbwyntio ar fynediad darllen ac ysgrifennu ar gyfer Gweinyddwyr Achos a darllen yn unig ar gyfer staff eraill.<br><br>Caiff canllawiau cenedlaethol ar ddefnyddio ViSOR eu datblygu fel rhan o'r Adnodd Datblygu Ansawdd ViSOR. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r holl staff perthnasol ledled Cymru.<br><br>Cynhelir archwiliad o'r defnydd a wneir o ViSOR ledled Cymru gan | Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol | Ebrill 2019<br><br>Medi 2019<br><br>Mehefin 2019<br><br>Tachwedd 2019 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddefnyddio'r Adnodd Datblygu Ansawdd a chaiff yr hyfforddiant ei rannu gyda'r holl staff. | Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol | |
| 6 | Sicrhau bod unigolion yn gallu dechrau rhaglenni achrededig yn brydlon ar ôl cael eu dedfrydu, neu cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny | Cytuno | Mae rhestrau aros a gyhoeddir yn fisol ar gyfer Horizon ac iHorizon (rhaglenni achrededig i atal rhag cyflawni troseddau rhyw ar y rhyngrwyd) wedi cael eu datblygu ar gyfer eu rhannu gyda Phenaethiaid LDU. Bydd y trosolwg hwn o restrau aros ar lefel uwch leol yn cefnogi ymarferion blaenoriaethu lleol a rheoli rhestrau aros cyffredinol.<br><br>Bydd model yn cael ei ddatblygu i alluogi ni i gynllunio senarios gwell o ran rheoli rhestrau aros.<br><br>Caiff rhestrau aros sy'n defnyddio'r model hwn eu trafod yng nghyfarfodydd rhanbarthol cynllunio gweithlu ynghyd â gwybodaeth am adnodd cynllunio'r gweithlu i sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. | Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd/ Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Pennaeth Amddiffyn y Cyhoedd<br><br>Cyfarwyddwr Rhanbarthol | Wedi'i Gwblhau<br><br>Wedi'i Gwblhau<br><br>Ebrill 2019 ac yn barhaus. |
| 7 | Sicrhau y gwneir defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r Swyddog Prawf | Cytuno | Bydd NPS Cymru yn cofrestru PSOs a hwyluswyr Goruchwylio Grŵp ar gwrs gwaith grŵp fel rhan o'r gwaith o ail-lansio Grwpiau Goruchwylio ar draws y Rhanbarth.<br><br>Lle y bo'n briodol, bydd penaethiaid LDU yn sicrhau bod PSOs yn gweithio yn unol â'r model cymorth rheoli achosion i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon ac effeithiol o'r PSOs. Bydd penaethiaid LDU yn gwneud hyn drwy gynnal adolygiad o waith y PSOs ac adolygu'r dull o reoli'r llwyth gwaith. Yn seiliedig ar hyn, lle y bo'n briodol, bydd penaethiaid LDU yn sefydlu a oes angen adnewyddu'r rôl CMS ai peidio.<br><br>Bydd llwyth achosion a llwyth gwaith PSOs yn cael eu hadolygu gan y SPOs drwy ddefnyddio'r Adnodd Rheoli Llwyth Gwaith er mwyn dosbarthu llwyth gwaith yn deg ac yn effeithlon yn unol â phwynt gweithredu 1 (uchod) ac er mwyn sicrhau bod proses fwy effeithiol a ffurfiol ar waith ar gyfer dosbarthu tasgau penodol i PSOs.<br><br>Bydd penaethiaid LDU hefyd yn ystyried penodi rolau Un Pwynt Cyswllt arbenigol i PSOs yn eu timau er mwyn sicrhau bod y rôl hon yn cael ei chyflawni'n effeithiol. Y Penaethiaid LDU fydd yn ystyried recriwtio PSOs sy'n arbenigo mewn lletyau, PSOs ar gyfer troseddwyr benywaidd a PSOs ar gyfer Swyddog Cymorth Busnes (a fydd yn cefnogi'r SPOs gyda | Cyfarwyddwr Rhanbarthol<br><br>Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol<br><br>Penaethiaid Unedau Cyflawni Lleol | Medi 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Mai 2019<br><br>Medi 2019 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | holl dasgau trafodaethol yr Adran Adnoddau Dynol) | | |
| **Argymhelliad i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)** | | | | | |
| 8 | Recriwtio digon o staff i lenwi swyddi gwag yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr | Cytuno | Disgwylir y bydd y trydydd Cymhwyster Prawf Proffesiynol (PQiP) yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2019; bydd lleoliadau swyddfa yn cael eu penderfynu yn seiliedig ar gyfeiriad cartref yr unigolyn a'r LDU ond yn blaenoriaethu swyddi sy'n hanfodol i'r busnes. Yn ogystal, disgwylir i ddysgwyr NPS Cymru fod wedi cymhwyso erbyn mis Medi 2019 ac erbyn mis Mawrth 2020. Bydd yr unigolion hyn yn cael effaith sylweddol ar leihau prinder swyddogion prawf ar draws NPS Cymru.<br><br>Bydd NPS Cymru yn gweithio'n agos gyda thîm recriwtio canolog y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i drafod nifer y gofynion lleoli PQiP ar gyfer NPS Cymru, gan ddefnyddio rhagolygon gyda chyfraddau cynwysedig. Mae disgwyl i'r garfan nesaf ddechrau ym mis Ionawr 2020 a bydd y trefniadau ar ei gyfer yn dechrau oddeutu mis Awst 2019.<br><br>Mae gwelliannau i'r broses recriwtio yn parhau, gyda'r nod o leihau'r amser a'r gost i benodi staff, cynyddu nifer y staff newydd sy'n dod o gefndir amrywiol a sicrhau bod HMPPS yn denu pobl sydd â'r sgiliau cywir. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno proses sifftio digidol a thechnoleg asesu newydd, gweithredu Proffiliau Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil a sicrhau ei fod yn cael ei anelu at bobl leol. Mae HMPPS wedi ymrwymo i gadw'r staff presennol a sicrhau bod y gweithlu yn gryf ac amrywiol. Daw staff newydd o amryw o gefndiroedd a dônt ag amrywiaeth o brofiad gwerthfawr gyda nhw i'r gwasanaeth. | Cyfarwyddwr Rhanbarthol<br><br>Cyfarwyddwr Rhanbarthol<br><br>Adran Adnoddau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder | Mawrth 2020<br><br>Awst 2019<br><br>Rhagfyr 2019 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ)** | | | | | |
| 9 | Sicrhau bod y broses ar gyfer adolygu gorchmynion gwaith yn y contract rheoli cyfleusterau yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r cyhoedd. | Cytuno | Mae Bwrdd Ystadau HMPPS yng Nghymru yn cynnwys cynrychiolaeth gan bob Pennaeth LDU, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Rheolwr Contract FM. Mae hyn yn rhoi cyfle i godi materion ac adrodd ar gynnydd yn erbyn gwaith brys. Bydd Cyfarwyddwr NPS Cymru yn parhau i ddwysáu materion ac adolygu gorchmynion gwaith sy'n weddill drwy'r fforwm hwn a thrwy gydweithio â'r Bwrdd Ystadau Cenedlaethol, i flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd yng Nghymru.<br><br>O fis Mawrth 2019 ymlaen, mae tîm ystadau penodedig wedi'i sefydlu ar gyfer y Gwasanaeth Prawf, gyda chyfarfodydd cyswllt rheolaidd wedi'u sefydlu | Cyfarwyddwr Rhanbarthol<br><br>Pennaeth Datblygu Busnes | Wedi'i Gwblhau<br><br>Wedi'i Gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rhwng rhanddeiliaid allweddol, i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cyd-fynd ag anghenion y cwsmeriaid. Mae adroddiad statws wythnosol ar orchmynion gwaith yn cael ei ddarparu bellach hefyd; bydd y cynnydd yn cael ei adolygu fel rhan o'r sesiynau cyswllt. | | |